

OWEN, JOHN (1698 - 1755), canghellor eglwys Bangor

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1698
Dyddiad marw: 1755
Rhiant: Pierce Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: canghellor eglwys Bangor
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llanidloes yn 1698 yn fab i Pierce Owen; yn ôl Foster (*Alumni Oxonienses*), ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, fel 'John Owens,' 21 Mawrth 1718/9, yn 21 oed, ond annhebyg i'r eithaf yw cynnig Foster iddo raddio yn 1722 dan yr enw 'Joseph Owen.' I'r gwrthwyneb, yng nghofnodion [A. Ivor Pryce](#) (*The Diocese of Bangor during Three Centuries*), ni roddir gradd o gwbl iddo yn 1723; eithr erbyn 1742 y mae'n LL.B., ac erbyn ei farw'n LL.D. Nid annhebyg felly mai ef oedd y g r a enwir gan Venn (*Alumni Cantabrigienses*), heb unrhyw gofnod o'i dras na'i oedran, a 'ymgorfforodd' yn Trinity Hall, Caergrawnt, yn 1741, fel 'fellow-commoner,' a ymaelododd yn y brifysgol yn yr un flwyddyn, ac a raddiodd yn LL.B. yn 1742 ac yn LL.D. yn 1751 - ni byddai'n rhaid i 'ymgorfforwr' o Rydychen neu Ddulyn breswyllo yng Nghaergrawnt, oblegid cyfrifid iddo'r tymhorau yr oedd wedi eu bwrw yn ei brifysgol wreiddiol. Sut bynnag, penodwyd John Owen yn ficer Llannor a Dyneio (h.y. Pwllheli), 1 Mehefin 1723. Ym Mehefin 1742 penodwyd ef yn ganon ym Mangor, ac ar ddiwedd Ionawr 1743 yn ganghellor; rhoddwyd iddo hefyd (ddiwedd Rhagfyr 1745) reithoraeth Llantrisant ym Môn. Bu farw rywbryd cyn 8 Tachwedd 1755, y dydd y penodwyd rheithor newydd yn Llantrisant 'yn herwydd marw J. Owen'; claddwyd yn Llanidloes.

Fel gelyn anghymodlon i Fethodistiaeth y cofir John Owen. Y mae llythyr chwerw ganddo yn *Account of the Welsh Charity Schools* [John Evans](#), Eglwys Cymyn, a sonnir yno hefyd am lythyr a anfonodd ef a'i gyfeillion at [Griffith Jones](#) ei hunan, yn cwyno'n erwin ar 'fethodisteiddi'ch' yr ysgolion cylchynol. Gwrthododd yn chwyn (1741) gais [Howel Harris](#) i sefydlu ysgol yn eglwys Llannor; a phan roddwyd lloches i'r ysgol gan [William Prichard](#), manteisiodd ar eiriau a ddywedwyd gan hwnnw ym mynwent yr eglwys i'w erlyn (E. B. Jones, yn *Llawlyfr Undeb yr Annibynwyr*, 1923, 46-7) o flaen y llys esgobol ym Mangor - amddiffynnwyd [Prichard](#) gan y cyfreithiwr John Williams o'r T Fry (Môn); taflwyd yr achos i'r Sesiwn Fawr, ac ymhen tair blynedd colodd John Owen y dydd - ond bu'n rhaid i [William Prichard](#) ymado â'r Glasfryn. Ni adawai John Owen lonydd i'r Methodistiaid; sonia'r llyfrau am fwy nag un enghraifft o'i waith yn eu dwyn o flaen y llys am dorri 'Conventicle Act' 1664, ac y mae yn llyfrgell Coleg Bangor (Gwynedd MS. 17B) gopiâu o achwynion ganddo i'r llys, yn erbyn Methodistiaid, ynghyd â'r ddedfryd o esgymundod a ddilynodd. Y mae'n amlwg ei fod hefyd yn cadw ei olwg ar ei henfro tua Llanidloes, ac yn helpu clerigwyr yno i weithredu yn yr un modd - gweler [Bennett](#), *Meth. Trefaldwyn Uchaf*, 41-2 a 64-5. Nid yw'n rhyfedd i [Robert Jones](#) o Roslan, gan gydnabod er hynny ei allu, a'i huodledd fel pregethwr, roi lle mor helaeth iddo yn *Drych yr Amseroedd* (61-2, 77-8) - diamau fod gofyn cymryd rhyw gymaint o halen gydag adroddiad yr hen groniclydd, yn enwedig o'r cosbedigaethau a ddug 'rhagluniaeth' am ben y canghellor. Eto, cofier barn ei gyd-glerigwr John Lewis o Blas Llanfihangel-tre'r-beirdd am John Owen, pan glybu ei fod i gael ei benodi'n ganghellor : 'famous for a troublesome litigious temper, and of an obscure mean family; ... strange that the bishop was so imposed upon in appointing him' (Henllys MS. 630 yn llyfrgell Coleg y Gogledd).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Enwyd y ffynonellau yng nghorff yr ysgrif

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6251444](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

